Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Ionawr 10fed 2023

Croeso a Gweddi - Rhoddwyd gair o groeso gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol - Y Cadeirydd ynghyd a'r cynghorwyr, Phyllis Ellis, Elwyn Jones, Gareth W Griffiths, Jane Pierce, Idris Thomas, Elfed Wyn Williams, a chroesawyd y cynghorydd Berwyn Jones

Ymddiheuriadau - Rhian Evans Hill, Lowri Ann James, Sasha Williams, Richard Jones, Elen George, Dawn Parry

Datgan Buddiant

Dim

Cofnodion 6ed Rhagfyr 2022

Cafwyd y Cofnodion yn gywir

Idris Thomas (1) Elwyn Jones (2)

Materion o'r Cofnodion

Bin Halen - Cais am Bin Halen ym Mrynrefail - Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn datgan nad oes modd gosod un ger Tyn Twll, gan nad yw ar ffordd gyhoeddus. Fodd bynnag, mae gwasanaeth amgylcheddol wedi gwneud Gwaith adfer yno yn y gorffennol, felly, efallai fod gobaith i ail ystyried.

Lon Garret Dinorwig - Mae first Hydro yn mynd i ail osod y giât a'r ffens sydd wedi cael ei dymchwel yn ben yr allt.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Cynllunio

Dyma geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

C22/1139/18/DT - Hafod, Gallt y Foel - Newidiadau i adeilad presennol

C22/1145/18/DT - 1 Craig y Ddinas - estyniad yn y cefn gan gynnwys balconi.

Llwybrau

Derbyniwyd cadarnhad gan adran llwybrau fod yna gynllun ariannu gan Grant Mynediad Llywodraeth Cymru a bod Gwaith 7yn mynd i ddechrau ar y llwybrau canlynol:

Llanddeiniolen 111A - Mewnosod pont Newydd ynghyd a gwelliannau i'r llwybr o ran dodrefn, draeniad ac arwyddo - I'w cwblhau'r flwyddyn ariannol hon.

Llwybr carreg y Gath, Rhiwlas (74 a 139) - Gwelliannau I ddraeniad, dodrefn ac arwyddo - Gwaith I'w gwblhau blwyddyn ariannol nesaf (2023-24)

Llanddeiniolen 65A - Mewnosod cylfat - Gwaith I'w gwblhau ym mlwyddyn (2023-24)

Mae'r adran hefyd yn dilyn cais gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen yn y broses o gael dyfynbrisiau ar gyfer sawl llwybr arall o fewn y plwyf.

Amcan bris Cysgodfa ym Methel

Derbyniwyd amcan bris ar gyfer tynnu a chreu cysgodfa'n bws newydd yn waelod Bethel ar gost o £3193. Mae'r gysgodfa'n yma mewn cyflwr sobor ac angen sylw oherwydd diogelwch. Penderfynwyd derbyn yr amcan bris a chysylltu â'r cwmni i ddechrau cyntaf posib ar y Gwaith.

Idris Thomas (1) **Phyllis Ellis (2)**

Cadarnhau Cyllideb a Phennu Praesept

Yn dilyn ail edrych ar y gyllideb, a thynnu ac ychwanegu, penderfynwyd derbyn y gyllideb a rhoi cais am braesept o £31,000 eto eleni.

Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn caniatáu i'r Cyngor weithredu cystal â'r modd heb godi praesept ac ychwanegu at gost i deuluoedd yr ardal.

Sedd Wag - I'w drafod yng Nghyfarfod Chwefror

Aelod Ychwanegol I Arwydd Sieciau - Penodwyd Emma Chappell yn ychwanegol

Aelod ar Banel dyletswydd dros y clerc - Penodwyd Gareth Griffiths i ymuno ar yr is banel yma

Is Bwyllgor Llwybrau - Trafod yng nghyfarfod mis Chwefror

Aelod i gynrychioli ar Lywodraethwyr Ysgol Bethel - Trafod yng nghyfarfod mis Chwefror

Hyfforddiant

Nododd y clerc ei bod dal yn disgwyl y ffurflenni hunan asesiad gan rai Cynghorwyr. I gyd i fod i mewn erbyn y cyfarfod nesaf os gwelwch yn dda.

O Gwmpas y Bwrdd

Noson Plygain,

Eisteddfod Genedlaethol - Cafwyd noson lwyddiannus ar Ragfyr 21ain yn Eglwys Crist Llandinorwig. Gwnaed elw o £400 ar y noson tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd

Dwr yn Bron Gaer

Unwaith eto mae'r broblem yma yn codi. Ond nododd Elwyn Jones ei fod yn cydweithio gyda Chyngor Gwynedd I geisio datrys y broblem yma.

Cadarnhau Taliadau:

621 - £50